Senedd Cymru
**Y Grŵp Trawsbleidiol ar Awtistiaeth**

Cofnodion
Dydd Llun 7 Mawrth 2022, 3pm-4.30pm
Cyfarfod rhithwir

**Yn bresennol:** Mark Isherwood AS, Carolyn Thomas AS, Steffan Davies, Amber Spiller, Natasha Castelini, Simon Mustoe, Chris Haines, David Fox, Ceri Low, Claire Bullock, Rachel Brown, Beth Ryan, Barbara Howe, Keith Ingram, Harvey Philpott, David Evans, Enid Morris, Jacquelyn Elias, Willow Holloway, Eleri Walters, Sam Walsh, Stephane Guidon, Steffan Phillips, Sioned Thomas, Siôn Edwards, Sarah Broadhurst, Samantha Lambert-Worgan, Dan Rose, Rehema Gakoto, Rachel Hancocks, Monique Craine, Michael Williams, Lindsay Brewis, Leanne Mathers, Karen Shepherd, John Price, Jo Phillips, Jan Roberts, Ryland Doyle, Davina Carey-Evans, Amanda Evans, Beth Edwards, Anne Woods, Aimee Louviere-Cowen, Carys Holt, Enid Harris

**Ymddiheuriadau:** Tom Giffard AS, Sam Kurtz AS, Lesley Griffiths AS, Rhianon Passmore AS, Sian Gwenllian AS, Vikki Howells AS, Llyr Gruffydd AS, Sarah Murphy AS, Sam Rowlands AS, Luke Fletcher AS, Dawn Bowden AS, Natasha Asghar AS, Einir Price, Alan Dowey, Catherine Vaughan, Damien McCann, Nicholas Davies, Kelvin Barlow, Claire Morgan, Lisa Phillips, Monica Parry, Karen Thompson, David Lloyd Williams, David Walker, Catrin Williams, Rhiannon Pugh, Jo Woodward, Andrea Wayman, Caroline Wright, Andrew Allshorn, Hilary Leadbeater

1. Croeso a chyflwyniad

   Croesawodd Mark Isherwood AS bawb i'r cyfarfod. Dywedodd fod y Grŵp Trawsbleidiol ar Awtistiaeth wedi bodoli ers 20 mlynedd a'i fod wedi gwneud cyfraniad pwysig wrth ddod â phobl awtistig, teuluoedd, gweithwyr proffesiynol a gwleidyddion ynghyd i drafod gwasanaethau a chefnogaeth yng Nghymru.

2. Cofnodion y cyfarfod blaenorol

   Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod diwethaf a gynhaliwyd ddydd Llun 13 Rhagfyr 2021 yn adlewyrchiad cywir ar ôl i Samantha Lambert-Worgan a Davina Carey-Evans gynnig ac eilio hynny, yn y drefn honno.

3. Addysg Disgyblion Awtistig yng Nghymru

   Cyflwynodd Steffan Davies, myfyriwr PhD yn Ysgol Addysg Prifysgol Abertawe, ganfyddiadau ei adroddiad am addysg disgyblion awtistig yng Nghymru. Thema o bwys yn ei waith ymchwil oedd y lefelau gwahanol o fodlonrwydd â darpariaeth brif ffrwd a darpariaeth arbenigol. Dim ond 48% o ddisgyblion a deimlai eu bod yn cael eu cynnwys mewn lleoliadau prif ffrwd, o'u cymharu â 78% mewn ysgolion arbenigol. Rhoddodd SD drosolwg o ganlyniadau arolygon a gynhaliwyd ymhlith disgyblion awtistig,

rhieni/gofalwyr ac addysgwyr. Esboniodd fod tri o bob pedwar unigolyn ifanc awtistig yn dweud eu bod wedi cael eu bwlio yn yr ysgol, ac nad oedd un ym mhob pedwar yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol. Dywedodd fod bron i 50% o'r unigolion hyn yn teimlo'u bod yn cael eu heithrio, a bod dros eu hanner yn teimlo nad oeddent yn cael digon o gefnogaeth yn yr ysgol. Esboniodd fod 70% o rieni wedi teimlo nad oeddent yn wedi cael cefnogaeth i ddod o hyd i leoliad ysgol addas, a theimlai 71% fod angen mwy o gefnogaeth ar eu plentyn i gyflawn ei lawn botensial. Dywedodd 39% o addysgwyr wrth yr astudiaeth ymchwil eu bod yn teimlo nad oedd eu cyngor lleol yn eu cefnogi. Tynnwyd sylw at thema arall o bwys, sef bod 77% o weithwyr addysg proffesiynol yn teimlo bod ganddynt ddealltwriaeth dda o awtistiaeth, ond bod y ffigur hwnnw'n gostwng i 50% wrth holi rhieni am hynny ac yn gostwng i 28% wrth holi disgyblion. Cyfeiriodd ST hefyd at astudiaethau dilynol arfaethedig sy'n rhoi sylw i boblogaeth ehangach y disgyblion ac i wahardd disgyblion o'r ysgol, yn ogystal â gofyn i ddisgyblion awtistig: beth fyddet ti'n dymuno i dy athro ei wybod am awtistiaeth?

Cyfeiriodd MI at lwyth gwaith cynyddol ei swyddfa, gan sôn am enghreifftiau o ddisgyblion ddim yn cael diagnosis oherwydd 'masgio' a rhieni'n cael eu beio. Cododd y cadeirydd bryderon hefyd am nifer uchel y gwaharddiadau ymhlith disgyblion awtistig.

Dywedodd Willow Holloway wrth y cyfarfod iddi gael diagnosis yn ei 40au, a bod ei phlant a'i hwyrion awtistig bellach yn cael yr un profiadau ag a gafodd hi yn yr ysgol. Gan godi pryderon am wneud cam â sawl cenhedlaeth, galwodd am wneud ymchwil i brofiadau oedolion awtistig yn yr ysgol er mwyn deall effaith hirdymor hyn yn well. Dywedodd fod angen inni ddysgu am bobl awtistig, ac nid am awtistiaeth fel cyflwr yn unig. Tynnodd WH sylw hefyd at adroddiad Autistic UK am wrthod mynd i'r ysgol / diffyg presenoldeb, a'r cysylltiadau rhwng hynny â thrawma.

Cododd Monique Craine a Karen Shepherd bryderon am hyfforddiant cyffredinol, gan bwysleisio pwysigrwydd rhoi sylw i brofiadau bywyd pobl ac addasu'r hyfforddiant i anghenion unigol plant. Yn y cyfamser, dywedodd Lindsay Brewis fod yr ymchwil yn cyd-fynd â chanfyddiadau Snap Cymru.

Dywedodd Beth Edwards fod y canfyddiadau ynghylch profiadau merched mewn addysg yn adlewyrchu ei hymchwil PhD hi'i hun. Roedd hi'n gobeithio y gellid defnyddio canfyddiadau'r ymchwil yn y dyfodol fel nad ydym yn wynebu'r un sefyllfa ymhen pum mlynedd.

Dywedodd David Fox nad yw lleoliadau arbenigol na lleoliadau prif ffrwd yn aml yn darparu ar gyfer plant awtistig sydd ag IQ uwch na'r cyfartaledd ac sydd heb gyflyrau sy'n cyd-ddigwydd. Cyfeiriodd hefyd at addysg ac eithrio yn yr ysgol, a chytunodd fod angen i bobl sydd â phrofiadau bywyd fod yn rhan o ddarparu a dylunio gwasanaethau.

Mynegodd Samantha Lambert-Worgan bryderon am y bwlch rhwng profiadau disgyblion mewn lleoliadau arbenigol a lleoliadau prif ffrwd. Dywedodd fod iechyd meddwl ei phlentyn sy'n cael addysg brif ffrwd wedi dirywio, tra bo'i brodyr a'i chwiorydd sy'n mynd i leoliadau arbenigol yn cael cefnogaeth gref.

Croesawodd Keith Ingram y ffaith y byddai ymchwil pellach yn cynnwys poblogaeth ehangach y disgyblion. Roedd yn credu bod y gymhariaeth rhwng lleoliadau arbenigol a lleoliadau prif ffrwd yn ddiddorol. Dywedodd fod rhywfaint o'r pwysau'n deillio o'r galwadau academaidd y mae'r cwricwlwm yn eu rhoi ar ddisgyblion, yn hytrach nag o natur y lleoliad yn unig.

Cyfeiriodd Steffan Phillips at y cyfnod pan fydd pobl yn pontio o'r ysgol i'w bywydau fel oedolion, a dywedodd fod hwn yn faes y mae angen gwneud rhagor o waith ymchwil

ynddo. Mynegodd bryderon am y diffyg cefnogaeth gymharol i oedolion awtistig. Galwodd hefyd am ailadrodd y set ddata at ddibenion monitro. Cytunai Steffan Davies, gan ddweud y byddai'r astudiaeth yn ddelfrydol yn cael ei hailadrodd ymhen tair i bum mlynedd er mwyn asesu effaith diwygiadau fel y rhaglen i drawsnewid y maes anghenion dysgu ychwanegol.

Mynegodd David Evans bryderon y gall hyfforddiant droi'n 'ymarfer ticio blwch', gan mai dim ond hanner diwrnod sydd wedi'i neilltuo ar ei gyfer. Pwysleisiodd bwysigrwydd gofyn faint o hyfforddiant sydd wedi'i roi, i sicrhau ei fod yn ddigonol. Cytunai Claire Bullock gan ddweud y dylai profiadau bywyd fod yn sail i hyfforddiant. Ychwanegodd y byddai'n ddefnyddiol gwneud mwy i rannu'r arferion gorau.

Cytunai Dr Sarah Broadhurst, o'r Autism Education Trust, fod angen i hyfforddiant i leoliadau addysg gael ei gyd-gynhyrchu a'i gyd-ddarparu gan bobl ifanc awtistig. Tynnodd sylw at [banel pobl ifanc yr AET].

Cynigiodd MI ysgrifennu at Jeremy Miles, y Gweinidog Addysg, yn ogystal â Chymdeithas y Cyfarwyddwyr Addysg a'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg i dynnu sylw at yr adroddiad a'r materion a godwyd yn y cyfarfod.

**4. Niwroamrywiaeth yn y system cyfiawnder troseddol**

Cafwyd cyflwyniad gan uned 'Cynnwys' CEM Parc – Amber Spiller, ADY Addysg, Natasha Castelini, Nyrs Anableddau Dysgu, a Simon Mustoe, Uwch Reolwr – a hynny am waith y carchar ym maes niwroamrywiaeth, sydd ar flaen y gad yn y Deyrnas Unedig. Rhannodd y tîm ystadegau am bobl yn y carchar sydd ag anableddau dysgu, gan ddweud eu bod dair gwaith yn fwy tebygol o gael eu cadw ar wahân neu o fod ag iselder clinigol. Cyfeiriwyd hefyd at y rhwystrau y mae pobl sydd ag anableddau dysgu yn eu hwynebu, fel diffyg preifatrwydd, anawsterau wrth ateb eu hanghenion synhwyraidd, a'r risg y bydd eu cyfoedion yn manteisio arnynt. Dywedwyd bod CEM Parc yn dilyn dull o weithio sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, gan asesu troseddwyr yn ystod eu cyfnod cynefino i ganfod unrhyw anghenion ychwanegol cyn gwneud newidiadau syml i gefnogi pobl niwroamrywiol. Amlinellodd y tîm hefyd y gwaith sy'n cael ei wneud i roi'r diwygiadau ym maes anghenion dysgu ychwanegol ar waith yn y carchar. Dywedodd Mr Mustoe fod gostyngiad wedi bod yn y carchar o bron i 80% mewn hunan-niweidio, gostyngiad o 32% mewn digwyddiadau treisgar, a gostyngiad o 19% yn y defnydd o rym. Dywedodd fod y Gymdeithas Awtistiaeth Genedlaethol a'r Coleg Nyrsio Brenhinol wedi cydnabod bod y carchar yn batrwm o arferion da.

Gofynnodd MC am hyfforddwyr ym maes awtistiaeth a sut y mae'r carchar yn rhoi sylw i brofiadau bywyd pobl awtistig. Cyfeiriodd tîm CEM Parc at gefnogaeth fentora gan gyfoedion. Dadleuodd KS fod canfod anghenion a rhoi cefnogaeth yn gynnar yn allweddol, gan ddweud bod angen rhoi pwyslais ar atal pobl awtistig rhag mynd i'r carchar. Canmolodd SLW waith CEM Parc i ddeall troseddwyr niwroamrywiol ac atal aildroseddu.

Gan groesawu'r gwaith sy'n cael ei wneud yn CEM Parc a'r gefnogaeth a roddir i bobl sydd dan amheuaeth neu droseddwyr, pwysleisiodd DF fod angen yr un lefel o gefnogaeth ar ddioddefwyr troseddau a thystion. Cyfeiriodd at ystadegau sy'n dangos bod pobl awtistig yn fwy tebygol o ddioddef o drais domestig, ymosodiadau rhywiol, a threisio. Cyfeiriodd hefyd at raglenni hyfforddiant unigryw Autistic UK a gwaith sy'n cael ei wneud yn y system cyfiawnder troseddol yn y gogledd. Pan ofynnodd SP iddynt am eiriolaeth, dywedodd tîm CEM Parc eu bod yn gweithio'n agos gyda People First Bridgend, elusen sy'n eirioli dros hawliau oedolion awtistig a'r rheini sydd ag anableddau dysgu.

Cynigiodd MI ysgrifennu at Lywodraeth Cymru, at Wasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi yng Nghymru, ac at lywodraethwyr carchardai eraill yng Nghymru i dynnu sylw at yr arferion gorau.

**5. Unrhyw fusnes arall / sylwadau i gloi**

Gofynnodd WH ynghylch y diffyg hyfforddiant sy'n cael ei roi gan y Gymdeithas Genedlaethol Awtistiaeth yng Nghymru, o'i gymharu â'i phrofiad o hyfforddiant Oliver McGowan yn Lloegr. Gofynnodd hefyd am roi gwaith Autistic UK ym maes menywod a merched ar agenda'r cyfarfod nesaf. Gan esbonio bod Cymdeithas Genedlaethol Awtistiaeth Cymru yn canolbwyntio'n bennaf ar ddarparu gwasanaethau gofal cymdeithasol, roedd Chris Haines yn cydnabod nad yw'r Gymdeithas yn cynnig cymaint o hyfforddiant ag yr hoffai yng Nghymru. Cytunai y byddai menywod a merched awtistig yn thema dda i gyfarfod 13 Mehefin.

Dywedodd MI iddo fynychu'r Grŵp Trawsbleidiol ar Awtistiaeth am y tro cyntaf 19 mlynedd yn ôl, a bod llawer o'r un materion yn dal i gael eu trafod. Pwysleisiodd bwysigrwydd ysgrifennu at weinidogion a rhanddeiliaid eraill i sbarduno'r newid rydym am ei weld er lles pobl awtistig. I gloi, diolchodd i'r holl siaradwyr ac i bawb a oedd yn bresennol yn y cyfarfod.